GAMBLING
COMMISSION

Pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud

Sefydlwyd y Comisiwn Hapchwarae yn dilyn y Ddeddf Hapchwarae 2005 i reoleiddio'r rhan fwyaf o hapchwarae masnachol ym Mhrydain.

Rydym yn gorff cyhoeddus, anadrannol, annibynnol (NPDB) wedi'i noddi gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Mae gyda ni dros 200 o weithwyr cyflogedig, wedi'i leoli gan fwyaf ym Mirmingham, gyda dros 50 rheolwr cydymffurfiaeth a gorfodaeth yn gweithio ar hyd Cymru, Lloegr a'r Alban.

Gweithiwn yn agos gyda'r awdurdodau trwyddedu* sydd yn gyfrifol am ddyroddi trwyddedau adeilad i weithredwyr hapchwarae (sydd yn caniatáu hapchwarae â mwyafsymiau bach mewn lleoliadau lle nad yw hapchwarae'n brif fwriad).

Caiff ein gwaith ei ariannu'n bennaf gan ffioedd trwyddedau a gan grant ar gyfer arolwg mynychder hapchwarae tair blynedd.

*Mae awdurdodau trwyddedu hefyd yn cofrestru cymdeithasau, sydd yn eu caniatáu i gynnal loteriau bach.

Mae'r comisiwn yn penderfynu Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer sydd yn amlinellu'r rheolau sydd yn rhaid i weithredwyr trwyddedig eu dilyn. Rydym hefyd yn rhoi cyfarwyddyd ymarferol i awdurdodau lleol a chyfranogwyr eraill ynglŷn â hapchwarae.

Mae'r Comisiwn yn trwyddedu'r mathau canlynol o weithredwyr sydd yn cynnal hapchwarae masnachol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban:

- bron 1,000 o weithredwyr arcedau
- dros 800 o fwcïod oddi ar y cwrs
- bron 600 o fwcïod ar y cwrs
- dros 600 o glybiau Bingo
- tua 150 o dai casino
- bron 700 o ddarparwyr peiriannau hapchwarae a meddalwedd hapchwarae
- dros 500 o weithredwyr lotri a bron 40 o reolwyr lotri allanol
- dros 150 o weithredwyr hapchwarae o bell sydd wedi eu lleoli ym Mhrydain

Dydyn ni ddim yn rheoleiddio'r Lotri Genedlaethol (dyna Gomisiwn y Lotri Genedlaethol) na betio wedi'u daenu (dyna'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA)).

Amddiffyn y Cyhoedd

Gweithiwn gyda gweithredwyr trwyddedig i sicrhau eu bod yn cadw at yr Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer. Byddwn yn gwirio i weld os oes gyda nhw'r gweithdrefnau mewn lle i gydymffurfio gyda'r gyfraith ac felly amddiffyn y cyhoedd.

Mae gyda ni rymoedd i ymwneud â'r gweithredwyr trwyddedig hynny sydd ddim yn cydymffurfio â'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer gan gynnwys gallu gorfodi dirwyon diderfyn, ataliad neu ddiddymu trwyddedau a'r pwerau i erlyn.

Mae gyda ni bwerau gorfodaeth i fynd i'r afael â hapchwarae anghyfreithlon a thwyllo a gallwn ddechrau achosion troseddol.

Gweithiwn yn agos gyda Chyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC), awdurdodau gorfodi cyfraith lleol ac awdurdodau trwyddedu.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud

Amcanion trwyddedu

Mae'n cylch gwaith yn ein galluogi i ganiatáu hapchwarae cyhyd â'i fod yn gytûn â thri amcan trwyddedu strategol.

- cadw troseddu allan o hapchwarae
- sicrhau fod hapchwarae'n cael ei gynnal yn deg ac agored
- amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsploetio gan hapchwarae

Cyngor

Mae gyda ni gyfrifoldeb i roi cyngor i lywodraeth leol a chenedlaethol ynglŷn â hapchwarae gan gynnwys:

- iynychrwydd hapchwarae
- y modd caiff hapchwarae ei gynnal
- effeithiau hapchwarae
- rheoleiddio hapchwarae

GAMBLING COMMISSION

Gambling Commission
Victoria Square House
Victoria Square
Birmingham
B2 4BP

Ffôn: 0121 230 6666
Ffacs: 0121 230 6720
E-bost: info@gamblingcommission.gov.uk
Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

GAMBLING COMMISSION